# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta

3 Mawrth 2023, 10:00 – 11:10
Microsoft Teams

## Yn bresennol

| | | |
|---|---|---|
| Sarah Murphy AS (Cadeirydd) | SM | AS dros Ben-y-bont ar Ogwr, Llafur Cymru |
| Mark Isherwood AS | MI | AS dros Ogledd Cymru, Plaid y Ceidwadwyr Cymreig |
| Jo Whitfield | JW | Swyddog Cenedlaethol, Beat |
| Amelia Holt | AH | Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, Beat |
| Annalise Ayre | AA | |
| Ryland Doyle | RD | |
| Yr Athro Euan Hails | EHA | Cyfarwyddwr Llywodraethu Clinigol a Therapiwtig, Adferiad Recovery |
| Georgia Taylor | GT | |
| Helen Missen | HM | |
| Katherine Lowther | KL | Swyddog Polisi, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion |
| Louise Bell | LB | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Iechyd Plant a'r Glasoed |
| Martin Ball | MB | |
| Brandon Renard | BR | Swyddog Ymchwil a Chyfathrebu, Swyddfa Sarah Murphy AS |
| Sarah White | SWH | Arweinydd y Gwasanaeth Deietig - Anhwylderau Bwyta, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Sarah Williamson | SWI | Swyddog Polisi, Materion Seneddol a Materion Cyhoeddus, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru |
| Sophie Weeks | SWE | Pennaeth Materion Cyhoeddus a Chyfathrebu, Cymorth i Fenywod Cymru |
| Tamsin Speight | TS | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu |
| Yolanda Snyman | YS | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Gwasanaeth Arbenigol Anhwylderau Bwyta i Oedolion |
| Emma Hagerty | EH | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Gwasanaeth Arbenigol Anhwylderau Bwyta |

| 1. Croeso ac ymddiheuriadau | Camau i'w cymryd |
|---|---|
| Croesawodd Sarah Murphy bawb i'r grŵp.<br><br>**CAFWYD**: Ymddiheuriadau gan aelodau absennol | |

- Jayne Bryant AC (Llafur)
- Heledd Fychan AS (Plaid Cymru)

| | |
|---|---|
| - Rhun Ap Iorwerth (Plaid Cymru)<br>- Nia Holford, Seicolegydd Clinigol, Tîm Triniaeth Arbenigol Anhwylderau Bwyta i Gleifion Allanol Caerdydd a'r Fro<br>- Sian Taylor, Deietegydd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>- Rebecca Bowen, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc Caerdydd a'r Fro<br>- Vikki Burrow, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>- Carol Philips<br>- Sarah Davies<br>- Hazel Orchard<br>- Manon Lewis<br>- Dr Nia Holford, Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol Arweiniol ar gyfer Gwasanaeth Anhwylderau Bwyta Haen 2 Cwm Taf Morgannwg<br>- Dr. Natalie Chetwynd, Arweinydd Clinigol Anhwylderau Bwyta Haen 3 Gorllewin Cymru<br>- Dr Naomi Swift, Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol Arweiniol<br>- Emily Hoskins | |
| **2. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - Ethol Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth** | **Camau i'w cymryd** |
| Etholwyd Sarah Murphy yn Gadeirydd gyda chefnogaeth unfrydol.<br>Etholwyd Jo Whitfield ac Amelia Holt o Beat fel ysgrifenyddiaeth. | |
| **3. Diweddariadau - Adolygiad o'r Gwasanaeth Anhwylder Bwyta,**<br><br>**Caloriau ar fwydlenni.** | **Camau i'w cymryd** |
| Gweler yr atodiad ar gyfer y sleidiau PowerPoint ar gyfer yr eitem hon.<br><br>Rhoddodd JW ddiweddariadau ar yr Adolygiad o Wasanaeth Anhwylderau Bwyta Cymru, gan ganolbwyntio ar ganfyddiadau Adroddiad 2022 Beat 'Tair blynedd yn ddiweddarach'.<br><br>Roedd y diweddariadau newydd ar gyfer 2023 yn cynnwys:<br>- Cyflwynodd TS ei hun fel yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol newydd ar gyfer anhwylderau bwyta. Bydd yn dechrau ei swydd ym mis Ebrill.<br>- Tynnodd JW sylw at ehangiad gwasanaethau anhwylderau bwyta ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | |

| | |
|---|---|
| , a fydd yn galluogi rhagor o gleifion i gael mynediad at gymorth yn gynnar.<br>- Tynnodd JW sylw at lansiad gwasanaethau mewngymorth i ysgolion CAMHS Cymru gyfan.<br><br>Soniodd JW am ddiffyg gwasanaethau anhwylderau bwyta cleifion mewnol ar gyfer oedolion<br>yng Nghymru. Tynnodd sylw at y argymhelliad<br>WHSSC i gynnal ymarfer cwmpasu er mwyn canfod yr angen ar gyfer<br>uned Anhwylderau Bwyta Haen 4 yng Nghymru. | |

| | |
|---|---|
| Rhoddodd JW ddiweddariad ar ymgyrch Beat i atal labelu caloriau rhag cael ei gyflwyno ar fwydlenni yng Nghymru. O ran y mater hwn, mae Beat wedi cynnal grwpiau ffocws, wedi anfon llythyr agored, ac wedi cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. | |
| **4. Adolygu'r Cylch Gorchwyl, cytuno ar feysydd ffocws a'r camau nesaf** | |
| Nododd SM y Cylch Gorchwyl a rannwyd gyda'r grŵp cyn y cyfarfod.<br><br>Mynegodd MI gefnogaeth i'r argymhelliad yn yr adroddiad 3 blynedd<br><br>i sefydlu fframwaith gydag amserlenni a gofynnodd pa ymateb yr oedd y llywodraeth wedi'i roi i'r argymhelliad hwn. Esboniodd JW nad oedd ymateb boddhaol wedi'i dderbyn. Awgrymodd SM y gellid cyflwyno hyn fel cwestiwn ysgrifenedig. Awgrymodd SM hefyd y dylai'r grŵp ysgrifennu llythyr at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn dilyn ei gyfarfod cyntaf i roi gwybod i'r Dirprwy Weinidog fod y Grŵp Trawsbleidiol wedi'i ail-sefydlu, gan gynnwys y Cylch Gorchwyl, ac unrhyw gwestiynau gan y grŵp. Awgrymodd SM hefyd y gellid gwahodd y Dirprwy Weinidog i gyfarfod o'r grŵp yn y dyfodol.<br><br>Amlygodd HM argymhelliad 22 o'r adolygiad o wasanaethau anhwylderau bwyta yn nodi y dylid cynnal adolygiad 5 mlynedd ar ôl adolygiad 2018.<br><br>Gofynnodd Georgia Taylor a oedd unrhyw ddiweddariadau ar wasanaethau cleifion mewnol yng Nghymru. Rhoddodd JW ddiweddariad ar ymgynghoriad Strategaeth Iechyd Meddwl Arbenigol WHSCC<br><br>sy'n mynd rhagddo ac sy'n cynnwys<br><br>cynlluniau i gynnal astudiaeth dichonoldeb ynghylch creu uned cleifion mewnol yng Nghymru. Awgrymodd SM y dylid gwahodd cynrychiolydd o WHSCC i gyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol.<br><br>Gofynnodd SM i JM am ragor o wybodaeth am y rhaglen mewngymorth i ysgolion CAMHS Cymru gyfan. Esboniodd JW fod y fenter wedi cael ei threialu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a bod y rhaglen bellach yn cael ei chyflwyno ledled Cymru. JW | **SM i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar ran y grŵp, i roi gwybod bod y grŵp wedi'i sefydlu a'i gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol.**<br><br>**JW i drafod â SM ynghylch cyflwyno cwestiwn ysgrifenedig i'r Dirprwy Weinidog**<br><br>**ynghylch cyhoeddi fframwaith Neu gynllun newydd gydag amserlenni.**<br><br>**JW i wahodd cynrychiolydd**<br><br>**o WHSCC i'r cyfarfod nesaf i gael diweddariad ar elfennau anhwylderau bwyta cleifion mewnol yr ymgynghoriad strategaeth iechyd**<br><br>**meddwl arbenigol newydd.** |

| | |
|---|---|
| Awgrymodd JW efallai y byddai'n dda gwahodd rhywun i siarad am y fenter mewn un o gyfarfodydd o'r Grŵp Trawbleidiol yn y dyfodol a chytunodd SM, gan esbonio ei bod hi a GT wedi bod yn edrych ar sut i godi ymwybyddiaeth yn yr ysgolion yn eu hetholaeth ynghylch darparu addysgu ar anhwylderau bwyta mewn gwersi ABCh, fodd bynnag, byddai'n dda i gysylltu â'r prosiect CAMHS yn lle hynny.<br><br>Nododd EHA fod y prosiect mewngymorth i ysgolion CAMHS | **SM i drafod gyda EH ynghylch** |

| | |
|---|---|
| wedi bod yn llwyddiannus ac mae'n cwmpasu pob maes iechyd meddwl. Nododd EHA hefyd fodel episod cyntaf o seicosis Cymru fel enghraifft lwyddiannus arall o ymyrraeth gynnar y gellid ei ailadrodd.<br><br>Tynnodd SM sylw at y diffyg hyfforddiant ar anhwylderau bwyta mewn sawl proffesiwn a dywedodd bod ofn ynghylch ymdrin â'r mater fel pwnc. Myfyriodd SM ar ei phrofiadau ei hun wrth gael gafael ar gymorth a phwysigrwydd gobaith a dealltwriaeth y gall profiadau byw eu cynnig. Gofynnodd SM am ychwanegu nod o ran codi ymwybyddiaeth a gwell hyfforddiant at nodau cylch gorchwyl y Grŵp Trawsbleidiol. | **rhagor o wybodaeth am y model ymyrraeth gynnar.** |
| Nododd HM fod SAPHNA wedi cynhyrchu pecyn cymorth i gynorthwyo nyrsys ysgol i siarad am anhwylderau bwyta. Tynnodd JW sylw at lwyfan Hyfforddiant Ar-lein Proffesiynol i Ysgolion e-ddysgu Beat (SPOT).<br><br>Nododd SM fater seiciatryddion a seicolegwyr sydd ond yn cael ychydig iawn o hyfforddiant ar anhwylderau bwyta yn ystod eu hyfforddiant. Cododd SM y mater hefyd bod cwnsleriaid iechyd meddwl yn aml yn teimlo'n anghymwys i ymdrin â chleientiaid sydd ag anhwylder bwyta.<br><br>Mae EHA yn sôn am bwysigrwydd defnyddio profiad byw a chymorth gan gymheiriaid yn ystod triniaeth. Tynnodd EHA sylw at y diffyg therapïau a modelau seicolegol yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael eu defnyddio ar gyfer anhwylderau bwyta, a gellid gwneud mwy yn ogystal â model Maudsley. Tynnodd EHA sylw hefyd at y mater o ddim gwelyau cleifion mewnol yng Nghymru a bod cleifion CAMHS weithiau'n cael eu hanfon i Gaeredin i gael triniaeth. Tynnodd EHA sylw at y trydydd sector yng Nghymru sy'n ystyried y posibilrwydd o agor uned anhwylderau bwyta. Nododd SM fod triniaeth cleifion mewnol yn fater a amlygwyd ganddi pan adroddodd am ei phrofiad bywyd ei hun ac mae wedi cael ei galw i fod yn rhan o ymarfer cwmpasu ynglŷn â'r galw o ran cleifion mewnol a sefydlu uned cleifion mewnol yng Nghymru fel rhan o'i haelodaeth o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Nododd SM y bydd hi ar BBC Wales Live yr wythnos nesaf yn siarad am wasanaethau anhwylderau bwyta yng Nghymru a bydd yn galw am ymarfer cwmpasu i'r galw o ran cleifion mewnol a'r posibilrwydd o sefydlu uned yng Nghymru. | **SM i ystyried yr adnoddau presennol sydd ar gael i weithwyr proffesiynol ysgolion.**<br><br>**JW i ychwanegu amcan sy'n ymwneud â chynyddu ymwybyddiaeth o anhwylderau bwyta a hyfforddiant gweithwyr proffesiynol. A sicrhau hefyd bod yr adnoddau hyfforddi presennol yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol.** |

| | |
|---|---|
| Yn adran sgwrsio'r cyfarfod, tynnodd GT sylw at bwysigrwydd ffocws cynyddol ar gefnogi staff nad ydynt yn arbenigwyr wrth drin anhwylderau bwyta, oherwydd bod nifer cynyddol yn dod i gysylltiad â chleifion ag anhwylderau bwyta.<br>Tynnodd HM sylw at y ffaith fod timau wedi cymryd rhan mewn 'hyfforddiant tîm cyfan', sy'n cael ei gomisiynu gan lywodraeth y DU i roi hyfforddiant i bob math o dimau gofal iechyd ar anhwylderau bwyta yn Lloegr. Gofynnodd EM a fyddai modd ei ddefnyddio a'i gyflwyno yng Nghymru.<br>Yn adran sgwrsio'r cyfarfod, tynnodd EH sylw at ymchwil ddiddorol sy'n cael ei wneud i gysylltiad teuluoedd â'r boblogaeth sy'n dioddef eu cyfnod cyntaf o seicosis.<br>Daeth SM â'r cyfarfod i ben gan nodi pwysigrwydd cydnabod bod nifer o fathau o anhwylderau bwyta, nid dim ond anorecsia a bwlimia. | |
| **5. Adolygu'r camau gweithredu a dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| Rhoddodd JW ac AH grynodeb o'r camau y cytunwyd arnynt.<br><br>Awgrymodd SM y dylid cynnal ein cyfarfod nesaf ar ddydd Gwener ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i hyn. Cytunodd SM a JW i drafod ynghylch dyddiad y cyfarfod nesaf ac i ddosbarthu gwahoddiadau. | **SM, JW, BR ac AH i drafod dyddiad y cyfarfod nesaf a dosbarthu gwahoddiad.** |